**PYSGODFA GOCOS WHITEFORD 2025**

**HYSBYSIAD CYHOEDDUS**

**wedi'i gyhoeddi yn unol â**

**Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024**

**PYSGODFA GOCOS TRAETH WHITEFORD AR GAU**

**MAE GWEINIDOGION CYMRU YN HYSBYSU**, yn unol â Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024, fod y gwelyau cocos (*Cerastoderma edule*) yn yr ardal a ddiffinnir isod ("yr Ardal") **ar gau** at ddibenion casglu cocos, yn effeithiol o **00:01 ar 10 Gorffennaf 2024** am y dyfodol rhagweladwy.

Oni bai iddo gael caniatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru ymlaen llaw, ni chaiff neb bysgota am gocos, eu symud ymaith, eu cymryd neu darfu arnynt, mewn unrhyw bysgodfa sydd wedi ei chau yn rhinwedd yr Hysbysiad hwn.

**Yr Ardal**

Yr ardal wedi'i chau gan yr hysbysiad hwn yw'r ardal o fewn Aber Casllwchwr, sydd wedi'i hamgáu gan linell a dynnir tua'r dwyrain o Aber Casllwchwr (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SS 4420 9826) i Bwynt Hills Tor (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SS 4280 9422) i Bwynt Whiteford (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SS4472 9670). Dyfroedd llanw yw'r terfynau hynny a ddiffinnir gan Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024:

A). SS 4420 9826; 51° 39'.683 Gogledd, 004° 15'.233 Gorllewin.

Wedyn mewn llinell syth i gyfesuryn:

B). SS 4280 9422; 51° 37'.483 Gogledd, 004° 16'.35 Gorllewin

Wedyn mewn llinell syth i gyfesuryn:

C). SS 4472 9670; 51° 38'.85° Gogledd, 004° 14'.75 Gorllewin

**Rhoddir yr Hysbysiad hwn o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newydd Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru**

**Dyddiad yr Hysbysiad: 10 Gorffennaf 2024**

Nodiadau:

1. Gwaherddir yr holl bysgota am gocos, at unrhyw ddiben a thrwy unrhyw ddull, o fewn yr Ardal am y cyfnod a nodir uchod, oni bai ei fod wedi'i awdurdodi gan Weinidogion Cymru.

2. Mae'r ardal wedi cael ei chau er mwyn cynnal arolwg gwyddonol i asesu'r stociau a chwblhau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

3. Mae'r ardal ar gau at ddibenion pysgota am gocos, eu symud ymaith, eu cymryd neu darfu arnynt am y dyfodol rhagweladwy.

4. Dangosir yr Ardal, er gwybodaeth yn unig, ar y map isod gan ddefnyddio croeslinellau coch.

Map yn dangos Pysgodfa gocos Traeth Whiteford rhwng pwyntiau aber y Llwchwr,Bryniau Tor a Whiteford Point.




© Crown Copyright and database right 2020. Ordnance Survey 100021874.
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2020. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.

RHAGOR O WYBODAETH
I weld rhagor o hysbysiadau a chael rhagor o wybodaeth am gau'r gwelyau hyn, cysylltwch ag:

Is-adran Pysgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court
Parc Busnes Haven’s Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro SA73 3LS

Ffôn: 0300 025 3500 E-bost: Pysgodfeydd@llyw.cymru